Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Astudiaeth achos

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Costau llai a chysylltiadau cyflymach wrth ddefnyddio PSBA yn rhoi CCGC ar y blaen.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch, bywyd gwyllt a'r cyfle ar gyfer mwynhad yn yr awyr agored yng Nghymru a'i glannau.

Mae CCGC yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynonellau o gyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sylfaen ar gyfer gweithgareddau economaidd a chymdeithasol, ac fel lle ar gyfer cyfleoedd hamdden a dysgu. Ei nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywydau pawb yng Nghymru.

Mae pencadlys CCGC ym Mangor ac mae ganddo 13 o swyddfeydd lleol ychwanegol ledled Cymru. Mae CCGC yn cyflogi oddeutu 500 o staff ac mae rhai ohonynt, fel Rheolwyr Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, wedi'u lleoli mewn swyddfeydd bach ar y safle neu gartref.

CCGC bellach yn rhan o PSBA

Mae CCGC wedi ymuno â rhwydwaith a chymuned genedlaethol defnyddwyr PSBA. Bydd hyn yn darparu cysylltedd band eang i CCGC rhwng ei bedwar ar ddeg o safleoedd ledled Cymru, a fydd yn arwain at arbed costau sylweddol.

Trwy symud oddi wrth linellau wedi'u prydlesu i'r rhwydwaith rhanedig, nid yn unig bydd CCGC yn arbed costau sylweddol (tua £100,000 y flwyddyn) ond bydd hefyd yn mwynhau cynnydd sylweddol yng ngallu'r rhwydwaith (hyd at 10 gwaith ar gyfer rhai swyddfeydd).

Yn y gorffennol, mae cyfyngiadau ar rwydwaith ardal eang fforddiadwy wedi arwain at ansawdd gwasanaeth dwy haen i ddefnyddwyr: nid oedd yn bosibl trefnu i rai systemau fod ar gael ym mhob man ac roedd rhai gwasanaethau yn cael profiad o ansawdd gwasanaeth annerbyniol o isel. Yn awr, gyda chyflymderau cysylltiad o 4 megabit o leiaf rhwng swyddfeydd, mae ansawdd y gwasanaeth y gallwn gynnig defnyddwyr wedi gwella'n fawr.

Heb ymglymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth y prosiect PSBA, byddai uwchraddio i'r math o rwydwaith sydd ei angen ar gorff cyfoes sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn afresymol o uchel.

System newydd yn galluogi systemau newydd a gwell i gael eu defnyddio

Mae'r system newydd wedi cael gwared ar gyfyngiad mawr ar foderneiddio gweithrediadau CCGC. Erbyn hyn, gellir cyflenwi cymwysiadau a systemau allweddol i bob un o swyddfeydd CCGC.

Cyn gynted ag yr oedd y cysylltiadau cyntaf yn fyw, roedd CCGC yn gallu trefnu bod y system GIS ar y we ar gael i fwy o ddefnyddwyr. Gwelwyd gwelliant yn ansawdd y system deleffon llais dros y rhyngrwyd ar unwaith, ac roedd rhyngweithiad â systemau corfforaethol yn gynt.

Gan edrych ymlaen, cafwyd gwared ar gyfyngiad mawr ar gyflwyno system rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS); gall CCGC ymestyn y defnydd o fideo-gynadledda dros y rhyngrwyd a bydd mewn sefyllfa well i hyrwyddo gweithio hyblyg.

Ers blynyddoedd lawer, mae CCGC wedi bod yn gweithio i wella rhannu gwybodaeth, cydweithio, lleihau'r effeithiau amgylcheddol ac i wneud systemau yn haws i'w defnyddio a'u rheoli. Erbyn hyn, mae ganddynt y rhwydwaith i gefnogi'r dyheadau hynny.

System ar gael ar gyfer y sector cyhoeddus

Mae PSBA ar gael i fwyafrif y sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gall sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill ymuno â'r rhwydwaith yn weddol hawdd a chael budd posibl o gostau llai a pherfformiad gwell.

60409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government